**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**18 CHWEFROR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mercher, 18 Chwefror, 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Ron Davies, Rosetta Dolphin, George Hardcastle, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd David Hughes (ar ran Ted Palmer)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Jean Davies

**ARSYLWYR:** Y Cynghorwyr: Helen Brown, Patrick Heesom a Christine Jones fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai; Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Arweinydd Tîm – Incwm; Rheolwr Refeniw a Rheolwr Strategaeth Tai

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 55. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

## 56. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2019.

Cofnod rhif 51: Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Gofynnodd y Cynghorydd Shotton a oedd copi o’r rhaglen yn seiliedig ar ardaloedd ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru ar gael i Aelodau ac a oedd trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer sesiwn galw heibio i Aelodau. Eglurodd yr Hwylusydd ei bod wedi siarad â Rheolwr y Tîm Gwaith Cyfalaf, a oedd wrthi’n casglu’r wybodaeth y gofynnodd yr Aelodau amdani yn y cyfarfod diwethaf.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 57. STRATEGAETH TAI A CHYNLLUN GWEITHREDU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Asedau a Thai) adroddiad a oedd yn amlinellu'r Strategaeth Tai a Chynllun Gweithredu drafft ar gyfer 2019-2024. Roedd y Strategaeth Tai a'r Cynllun Gweithredu yn nodi’r weledigaeth ynghylch sut y byddai’r Cyngor a’i bartneriaid yn diwallu anghenion o ran tai fforddiadwy, yn darparu cymorth perthnasol i drigolion ac yn sicrhau bod cartrefi cynaliadwy’n cael eu creu.

Amlinellodd y Prif Swyddog y nifer o gyflawniadau o’r Strategaeth Tai flaenorol, fel roeddent wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac eglurodd y byddai’r Strategaeth gyfredol yn adeiladu ar gyflawniadau blaenorol yng nghyd-destun yr heriau a oedd yn wynebu’r Cyngor ar hyn o bryd, fel diwygio'r gyfundrefn les, y cynnydd mewn digartrefedd ‘cudd’ a phrinder adnoddau. Roedd yr adroddiad yn crynhoi’r 3 blaenoriaeth a nodwyd gyda meysydd allweddol i weithredu arnynt ynghlwm â phob blaenoriaeth.

Roedd disgwyl i weithdy gael ei gynnal ym mis Chwefror 2019 gyda budd-ddeiliaid allweddol, Partneriaid Cymdeithas Dai'r Cyngor a grwpiau eraill, i adolygu'r cynllun gweithredu, er mwyn: sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd ar gyfer pob blaenoriaeth yn gynhwysfawr, yn ymarferol ac yn fforddiadwy; nodi unrhyw fylchau o ran y camau a restrwyd a nodi canlyniadau a sefydliadau arweiniol. Byddai fersiwn derfynol y Strategaeth Tai a’r Cynllun Gweithredu ar gael yng ngwanwyn 2019.

Canmolodd y Cynghorydd Shotton y swyddogion am yr adroddiad. Soniodd am y fenter gymdeithasol ar Ynys Môn a oedd yn darparu adeiladau ffrâm bren a gofynnodd a fyddai posib' ystyried adeiladu cartrefi tebyg er mwyn cyflymu'r rhaglen adeiladu tai ac ateb y galw cynyddol. Atebodd y Prif Swyddog gan ddweud bod nifer o wahanol gysyniadau adeiladu tai a oedd ar y farchnad ar hyn o bryd yn cael eu hystyried.

Soniodd y Cynghorydd Wisinger bod angen gwella mynediad i’r sector rhentu preifat a gofynnodd sut roedd landlordiaid lleol yn cael eu hannog i osod eu heiddo. Cydnabyddai’r Cynghorydd Attridge yr anawsterau wrth drafod gyda landlordiaid lleol a soniodd am ei bryderon bod nifer uwch o landlordiaid yn gwrthod ceisiadau gan bobl a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol. Dywedodd y Rheolwr Strategaeth Tai bod cyfarfod gyda landlordiaid lleol yn cael ei drefnu i ddod i ddeall eu pryderon yn well a gwella perthynas waith y Cyngor â nhw.

Dywedodd John Ennis, Cadeirydd Ffederasiwn y Tenantiaid, wrth y Pwyllgor ei fod wedi bod mewn cynhadledd yng Nghaerdydd a oedd wedi trafod dulliau adeiladu amgen a gofynnodd a oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw adborth o’r gynhadledd hon. Dywedodd y Prif Swyddog bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried opsiynau adeiladu amgen a bod y Cyngor yn disgwyl am wybodaeth ynglŷn â grant ar gyfer hyn.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Hughes, cytunodd y Prif Swyddog i gyflwyno adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol i'r Pwyllgor ar y cysyniad a'r opsiynau a oedd ar gael o ran defnyddio cartrefi unedol i gynyddu cyflenwad y Cyngor o dai.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Hutchinson ynghylch tai ffrâm bren a risg tân uwch, dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn cytuno a’r farn, gan ddweud bod safonau diogelwch tân yr un fath â'r rhai mewn cartrefi a oedd wedi'u hadeiladu yn y ffordd draddodiadol a'u bod yn cael eu hadeiladu'n unol â'r Rheoliadau Adeiladu cyfredol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Strategaeth Tai a'r Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer 2019/2024; a

(b) Bod adroddiad ar y cysyniad a'r opsiynau a oedd ar gael o ran defnyddio cartrefi unedol i gynyddu cyflenwad y Cyngor o eiddo i gael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

**58. INCWM RHENT TAI**

Cyflwynodd y Rheolwr Refeniw adroddiad a oedd yn rhoi mwy o'r wybodaeth weithredol ddiweddaraf am y sefyllfa ddiweddaraf o ran casglu incwm rhent yn dilyn adroddiad diweddar i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018. Er gwaethaf yr heriau parhaus sy'n deillio o nifer gynyddol o denantiaid yn symud o dderbyn y Budd-dal Tai i'r system Credyd Cynhwysol, roedd y sefyllfa gasglu ddiweddaraf yn dangos bod casglu rhent yn dechrau sefydlogi o ganlyniad i weithredu mesurau drwy fwy o adnoddau, ymyrraeth gynnar a mabwysiadu dull 'rhent yn gyntaf', ac roedd cyfanswm y dyledion rhent yn gostwng o £2.22 miliwn i £2.14 miliwn.

I liniaru'r heriau ariannol ar gyfer y Cyngor, roedd gwaith y Timau Ymyrraeth Tai'n parhau ac roedd adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu i sicrhau bod tenantiaid a oedd ar ei hôl hi o ran rhent yn derbyn help a chymorth yn gynnar trwy ddull 'cyflym'. Rhannwyd copi o sefyllfa ddiweddaraf dyledion rhent y tenantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a Budd-dal Tai i'r Pwyllgor.

Eglurodd y Rheolwr Refeniw bod menter arall yn cael ei rhoi ar waith i wella'r systemau meddalwedd ategol sy'n llywio gwaith Swyddogion Gorfodi Rhent, er mwyn sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu targedu i'r tenantiaid hynny sydd angen yr help mwyaf i sicrhau bod rhent yn cael ei dalu ar amser. Roedd gwaith ymarferoldeb wedi'i wneud gyda darparwr meddalwedd ac roedd ei ddatrysiad 'Rent Sense' yn prysur ddod yn gyffredin ymysg y diwydiant tai i ddadansoddi amrywiadau talu, risg a phennu pa denantiaid i gysylltu â nhw a phryd. Roedd y feddalwedd yn defnyddio algorithmau i ddadansoddi patrymau talu, amlygu risg a darparu gwybodaeth ddamcaniaethol i gefnogi dull mwy penodol wedi'i dargedu o gasglu dyledion rhent. Byddai datblygu'r feddalwedd hon yn moderneiddio'r gwaith yn y Gwasanaeth Rhent ac yn helpu'r Gwasanaeth i ganolbwyntio'n fwy doeth ar y tenantiaid hynny sydd mewn mwy o berygl o fethu â thalu rhent, gan ryddhau adnoddau mewnol a olygai fod modd rhoi ymyraethau tai ar waith yn sydyn cyn i ddyledion fynd yn waeth.

Diolchodd y Cynghorydd Hardcastle i'r Rheolwr Refeniw am yr adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd ei fod yn ddiweddar wedi gofyn am wybodaeth ynghylch dyledion Treth y Cyngor ar hyn o bryd a oedd wedi'u darparu gan y Rheolwr Refeniw ac a oedd yn dangos dyledion o £3.3 miliwn a gofynnodd a fyddai cynnydd i Dreth y Cyngor yn cael effaith ar ddyledion rhent. Eglurodd y Rheolwr Refeniw y byddai'r £3.3 miliwn o ddyledion yn parhau i ostwng gan fod gan breswylwyr yn Sir y Fflint nifer o wahanol ddiwrnodau yn ystod y mis y gallent ddewis talu Treth y Cyngor arnynt. Dywedodd mai'r Cyngor hwn oedd yn dal i berfformio orau o ran casglu Treth y Cyngor, gyda chyfradd gasglu o dros 99%, a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 98%.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hardcastle hefyd at ddau achos o argyfwng roedd wedi ymdrin â nhw yn ei ward dros y penwythnos a dywedodd fod cwmni'r llinell gymorth ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi'i leoli yn Llundain. Er bod y gwasanaeth roedd wedi'i dderbyn yn dda iawn, gofynnodd a ellid dod â'r gwasanaeth yn ei ôl yn fewnol i leihau'r costau i'r Cyngor. Eglurodd y Cynghorydd Attridge bod y sefydliad wedi'i benodi i dderbyn galwadau yn dilyn ymarfer caffael. Dywedodd ei fod yn aml yn defnyddio'r gwasanaeth a teimlai ei fod yn welliant ar y gwasanaeth blaenorol a'i fod yn rhoi gwell gwerth am arian.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hutchinson, eglurodd y Rheolwr Refeniw y dewisiadau ar gyfer ymyraethau a oedd ar gael i'r Cyngor a dywedodd y gallai'r gwaith i gynorthwyo preswylwyr bregus sydd ag anghenion cymhleth fod yn ddwys. Diolchodd y Cynghorydd Hutchinson i'r swyddogion am yr adroddiad tryloyw.

Canmolodd y Cynghorydd Shotton y swyddogion am y cyngor a'r cymorth a roddwyd i drigolion bregus a gofynnodd iddynt ddiolch i'r holl swyddogion a oedd ynghlwm ar ei ran. Soniodd am y consesiynau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau yn ddiweddar ynghylch Credyd Cynhwysol, a chredai eu bod yn dangos bod problemau â'r system bresennol.

Mynegodd y Cynghorydd Dolphin bryderon ynglŷn â faint o amser roedd yn rhaid i denantiaid aros i symud i daliadau wedi'u rheoli a'r dyledion a fyddai'n hel yn ystod y cyfnod. Cytunodd y Rheolwr Refeniw gyda'r pryderon a dywedodd yr hoffai weld yr amser hwn yn gostwng.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Wisinger, eglurodd y Cynghorydd Attridge bod rhent yn cael ei gasglu'n fewnol gan Swyddogion Gorfodi Rhent ac roedd y gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol ers pan oedd yn cael ei ddarparu gan gwmni allanol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer dyledion rhent yn 2018-19, sy'n dangos bod casglu rhent yn dechrau sefydlogi; a

(b) Cymeradwyo mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i wella trefniadau casglu rhent yn ystod 2019-20, trwy ddatblygu meddalwedd arbenigol i gefnogi dull o gasglu rhent wedi'i dargedu.

## 59. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried ac fe gytunwyd ar y newidiadau canlynol:

- Bod yr adroddiad ar dai arbenigol yn symud o fis Mawrth i'r cyfarfod ar 1 Mai.

- Bod adroddiad ar y cysyniad a'r opsiynau a oedd ar gael o ran defnyddio cartrefi unedol i gynyddu cyflenwad y Cyngor o eiddo i gael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor.

## 60. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.15 am)

..................................................

**Cadeirydd**